














<p>Felly...</p> <p>Os yw eu cartrefi wedi eu difrodi, o bosib bydd rhaid i bobl fyw mewn gweryll dadleoli.</p> 	<p>Felly...</p> <p>Rhaid i bobl ddianc yn gyflym o'u cartrefi, a ffoi i rywle diogel</p> 	<p>Felly...</p> <p>Rhaid i bobl gerdded i nôl dŵr, sydd o bosib yn fudr</p> <p>£</p>	<p>Felly...</p> <p>Mae rhai genethod yn treulio cymaint o amser yn nôl dŵr fel nad oes amser ganddyn nhw i fynd i'r ysgol</p> 
<p>Felly...</p> <p>Nid oes gan y Llywodraeth ddigon o arian i adeiladu isadeileddau dŵr</p> <p>?</p>	<p>Felly...</p> <p>Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i enethod gael cyfleoedd yn y dyfodol</p> 	<p>Felly...</p> <p>Dim ond mewn gwerylloedd dadleoli y caiff pobl fynediad at ddŵr glân.</p> 	<p>Felly...</p> <p>Mae'n anodd rhagweld pryd bydd yr haul yn tywynnu a phryd daw'r glaw</p> 
<p>Felly...</p> <p>Gall y cynaeafau fethu, gan arwain at brinder bwyd i bobl, yn enwedig i ffermwyr tlawd</p> 	<p>Felly...</p> <p>Cymerai hyn amser hir bob dydd</p> 	<p>Felly...</p> <p>Mae'r bobl sy'n byw gerllaw yn teimlo'n ofnus iawn</p> <p>?</p>	<p>Felly...</p> <p>Mae nôl dŵr yn cymryd amser maith, gall achosi salwch</p> <p>£</p>
<p>Felly...</p> <p>Nid oes gan bobl bibellau dŵr na ffynhonnau ger eu cartrefi</p> <p>£</p>	<p>Felly...</p> <p>Mae pobl yn ymgartrefu yn y gwerylloedd dadleoli er mwyn bod yn ddiogel</p> 	<p>Felly...</p> <p>Nid oes gan y bobl yr adnoddau priodol i amddiffyn eu hunain, megis cartrefi cryf, wedi eu hadeiladu'n gadarn</p> <p>?</p>	<p>Felly...</p> <p>Mae'n anodd gwybod pa gnydau i'w plannu, a pharai sy'n debygol o dyfu</p> 
<p>Felly...</p> <p>Pe bai trychineb megis llifogydd yn digwydd, mae'r cartrefi hyn yn fwy tebygol o gael eu difrodi</p> 	<p>Felly...</p> <p>Mae llygredd aer yn newid hinsawdd y byd</p> <p>?</p>	<p>Felly...</p> <p>Mewn llawer o wledydd, merched a genethod sydd fel arfer yn gorfod nôl dŵr</p> <p>?</p>	<p>Felly...</p> <p>Dim ond mewn gwerylloedd dadleoli y caiff pobl fynediad at ddŵr glân</p> 
<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p> <p>Mae colegau hyfforddi yn gostus iawn</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p> <p>Nid yw pobl wedi cael eu hyfforddi i osod ffynhonnau neu ddyrddyllau</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>
<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>	<p>Gwnewch eich cadwyn eich hunain...</p>



### Cyfarwyddiadau i Athrawon

Mae'r weithgaredd hon wedi ei chynllunio i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth am brinder dŵr. Bydd y disgyblion yn dod i adnabod beth yw gwraidd y broblem a'r hyn sy'n arwain at brinder dŵr. O ganlyniad, bydd gwell dealltwriaeth ganddyn nhw o ran sut i ddelio â'r achosion hyn yn unigol.

Drwy'r cadwynau dolen, bydd y disgyblion yn gweld fod gan y problemau ehangach eu canlyniadau, sy'n effeithio ar lefel unigol.

### Chwarae'r gêm

1. I ddechrau, dylai'r disgyblion wylio'r clipiau ffilm 'deall' a'r sioeau sleidiau. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i ddeall ystyr ac achosion prinder dŵr.

2. Mae'r gêm yn cynnwys 5 datganiad, un i wreiddyn pob achos (newid hinsawdd, dyled, anghydraddoldeb rhyw, gwrthdaro a thrychinebau naturiol) sydd i'w canfod yn ôl yr eiconau cysylltiol.

3. Cyn i'r disgyblion ddechrau, gofynnwch iddynt dorri a darllen pob un o'r datganiadau.

4. Yna, dylai'r disgyblion rannu'r datganiadau yn categorïau, gan ddefnyddio'r eiconau i adnabod pa ddatganiadau sy'n berthnasol i'w gilydd. Yn y gadwyn, marc cwestiwn yn hytrach nag eiconau yw'r ail ddatganiad, felly, rhaid i'r disgyblion ganfod pa categori sy'n gweddu'r datganiad.

5. Wedi iddyn nhw rannu'r datganiadau i categorïau, dylai'r disgyblion roi trefn benodol ar y datganiadau ym mhob categori, gan ddechrau gyda'r achosion sydd eisoes ar y gêm fwrdd, i'r effeithiau, gan ddefnyddio'r gair 'felly' i gysylltu'r datganiadau. Dylai'r disgyblion lynu/osod y datganiadau ar gardiau ar y gêm fwrdd a'u troi fel olwyn adeiniog.

6. Ar ddiwedd pob cadwyn, dylai'r disgyblion grynhoi, drwy ysgrifennu'r datganiadau cyntaf a'r olaf, gan ddechrau gydag 'oherwydd...'

Ee. Oherwydd fod pobl, o wledydd cyfoethog yn bennaf, wedi llygru'r atmosffer.....gall cynaeafau fethu, sy'n golygu bod llai o fwyd i bobl, yn enwedig ffermwyr tlawd.

Wrth gysylltu'r datganiadau cyntaf a'r olaf, gwêl y disgyblion fod prinder dŵr yn ganlyniad i'r achos gwreiddiol.

### Gweithgaredd Estynedig

7. Fel gweithgaredd estynedig, gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried eu cadwynau, gan ddechrau gyda'r achosion, a meddwl pa effeithiau sy'n arwain at brinder dŵr.

Gellir gwneud hyn mewn grwpiau o gylchoedd. Pasiwch wrthrych o gwmpas y cylch, mae'n angenrheidiol i'r sawl sy'n cydio yn y gwrthrych awgrymu canlyniad i'r hyn a dywedodd y myfyriwr o'i flaen. Gall defnyddio gwrthrych sy'n ymwneud â dŵr, megis gwydriad o ddŵr, fod yn ganolbwynt i'r drafodaeth.

### Delio gyda'r materion

Y gobaith yw y bydd y gêm o gymorth i'r disgyblion wrth feddwl pam fod pobl yn dioddef o brinder dŵr. O bosib, bydd y disgyblion yn trafod materion megis datblygu ecomomaidd, anghydraddoldeb, twf y boblogaeth, masnach ryngwladol a gwrthdaro. Mae'r rhain yn faesydd diddorol i'w hastudio, ond hefyd maent yn faterion dyrys, sydd y tu hwnt i gwmpas y gêm. Os bydd datganiadau neu sylwadau'r myfyrwyr yn symleiddio'r sefyllfa neu'n ystrydebol, heriwch nhw, gan eu hannog i archwilio'r materion yn fanylach. Gallwch gynorthwyo'r disgyblion i ymchwilio i'r materion hyn ymhellach, drwy ddefnyddio gwefan Oxfam, sef [www.oxfam.org.uk](http://www.oxfam.org.uk).